



Prince's Trust

QUALIFICATIONS

Archwilio Menter

Diben y ddogfen hon

Lluniwyd Manyleb y Cymhwyster hwn i roi gwybodaeth i ganolfannau, er mwyn iddyn nhw fedru cynnig y cymwysterau Archwilio Menter i'w dysgwyr. Mae'n cynnwys gwybodaeth i sicrhau bod dysgwyr yn cwblhau'r nifer cywir o unedau, a hynny yn y cyfuniad cywir, i fodloni'r strwythurau cymhwyso a'r rheolau cyfuno gofynnol.

Rhaid darllen y ddogfen hon ochr yn ochr â'r dogfennau canlynol, i sicrhau bod gan ganolfannau a dysgwyr yr holl wybodaeth ynghylch sut i gyflawni'r cymwysterau hyn.

Pecyn Cefnogi Cymwysterau 00 – Llawlyfr i Ganolfannau

Mae'r llawlyfr hwn yn egluro'r prosesau gweinyddol sy'n cynnal y gwaith o gyflwyno cymwysterau, er enghraifft sut mae dod yn Ganolfan Gymeradwy, pa drefniadau mynediad sydd gan Prince's Trust Qualifications (PTQ) ar gyfer dysgwyr â gofynion arbennig, pa lefel o wasanaeth gallwch chi ei disgwyl gennym ni, a pha systemau a sancsiynau mae PTQ yn defnyddio os bydd amheuan ynghylch camarfer neu gamweinyddu.

Mae'r llawlyfr hwn hefyd yn amlinellu'r rolau a'r cyfrifoldebau a ddisgwylir gan Aseswr a Swyddog Sicrhau Ansawdd Mewnol canolfan, gan ddarparu proffiliau cymhwysedd ar gyfer y ddwy rôl.

Pecyn Cefnogi Cymwysterau 01 – Datblygu Portffolio

Mae'r llawlyfr hwn yn ganllaw arfer da ar gyfer datblygu portffolio, ac mae wedi'i fwriadu i gefnogi canolfannau pan fyddan nhw'n dylunio gweithgareddau asesu ac yn cefnogi fformatau tystiolaeth portffolio. Mae'n cynnwys enghreifftiau o faterion cyffredin a all godi a chymau ymarferol i'w goresgyn.

Nid yw'r enghreifftiau a ddefnyddir i gyd yn benodol i'r cymhwyster Archwilio Menter, ond mae'r egwyddorion sy'n cael eu hegluro yn dal yn berthnasol.

Pecyn Cefnogi Cymwysterau 02 – Sicrhau Ansawdd Mewnol

Mae'r llawlyfr hwn yn disgrifio'r gwahanol weithgareddau sicrhau ansawdd mewnol y gellir eu cyflawni mewn canolfannau ac yn rhoi enghreifftiau o arfer da y gall canolfannau eu defnyddio i gynnal eu hymarfer eu hunain.

Pecyn Cefnogi Cymwysterau 03 – Cyflwyno Hawliadau a Chanlyniadau

Mae'r llawlyfr hwn yn esbonio'r prosesau gweinyddu wrth gyflwyno hawliad ar gyfer unedau neu gymwysterau, cyflwyno tystysgrifau, y broses ailgyflwyno, a hefyd y Weithdrefn Apeliadau. Mae'r llawlyfr hefyd yn cynnwys strategaeth asesu PTQ, yn ogystal â gwybodaeth yn amlinellu'r gofynion o ran cadw tystiolaeth.

Mae'r holl lawlyfrau hyn i'w gweld ar ein tudalen Cymwysterau ar y we (www.princes-trust.org.uk/qualifications) trwy glicio ar y wlad lle caiff y cymhwyster ei gyflwyno ac yna dilyn y ddolen i [Canllawiau i Ganolfannau \(Guidance for Centres\)](#) neu ddilyn yr hyperddolen uchod.

Cynnwys

Nod y Cymhwyso	5
Crynodeb o'r Cymwysterau	6
Strwythurau'r Cymwysterau	7
Dyfarniad Lefel 1 Prince's Trust mewn Archwilio Menter	7
Tystysgrif Lefel 2 Prince's Trust mewn Archwilio Menter	7
Unedau	8
Rheolau Cyfuno.....	9
Cyfuniadau Gwaharddedig	9
Symud Ymlaen	9
Iaith	9
Trefniadau Mynediad.....	9
Graddio	10
Tystiolaeth.....	10
Cofnodi Cyflawniad	11
Cyflwyno hawliadau	11
Gofynion staff	12
Cefnogaeth i ganolfannau.....	12
Rhestr o'r Atodiadau.....	13
Atodiad 1	14
Atodiad 2	21
Atodiad 3	22

Dros gyfnod o 40 mlynedd mae The Prince's Trust wedi gweithio gyda mwy nag 825,000 o bobl ifanc, gan roi cefnogaeth ymarferol ac ariannol i ddatblygu sgiliau gwaith allweddol, a'u helpu i symud i gyflogaeth, addysg a hyfforddiant.

Mae The Prince's Trust yn cael ei gydnabod gan y rheoleiddwyr cymwysterau yng Nghymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban fel corff sy'n datblygu, yn cynnig ac yn dyfarnu cymwysterau.

Mae Prince's Trust Qualifications (PTQ) yn ceisio:

- Sicrhau bod pobl ifanc yn cael pob cyfle i sicrhau cydnabyddiaeth ffurfiol i'w sgiliau a'u cyflawniadau
- Datblygu cymwysterau sy'n cynnig hyblygrwydd, dewis a llwybrau i symud ymlaen
- Darparu cefnogaeth a gwasanaeth rhagorol i'n partneriaid er mwyn sicrhau eu bod yn y sefyllfa orau i gefnogi pobl ifanc

Gan gydnabod bod llawer o bobl ifanc heb gymwysterau ffurfiol, rydyn ni'n mynd ati i hyrwyddo ein cymwysterau ymhlith y rhai sydd eu hangen fwyaf; pobl ifanc sydd wedi cael trafferthion yn yr ysgol neu sy'n ddi-waith yn y tymor hir, y rhai sydd â iechyd meddwl gwael, sy'n gaeth i gyffuriau neu alcohol, sydd wedi bod mewn gofal, sy'n ddigartref neu sydd wedi bod mewn trafferthion gyda'r gyfraith, rhieni sengl, ceiswyr lloches a ffoaduriaid.

Ansawdd Gwasanaeth:

Mae PTQ o'r farn y dylai pob person ifanc gael cyfle i lwyddo. Rydyn ni am i chi gael profiad cadarnhaol wrth weithio gyda ni, felly rydyn ni'n ymroddedig i sicrhau'r canlynol:

- Byddwch chi'n cael eich trin yn gyfartal ac â pharch
- Bydd eich gwybodaeth yn cael ei defnyddio dim ond mewn ffordd rydyn ni wedi cytuno arni gyda chi, oni bai eich bod chi'n dweud rhywbeth wrthyn ni sy'n golygu eich bod chi neu eraill mewn perygl o ddi-dded niwed
- Gallwch ddisgwyl cael eich trin mewn modd proffesiynol gan staff
- Gallwch ddisgwyl hefyd i'n staff fod yn hawdd mynd atynt, yn ysbrydoli, yn galluogi, yn angerddol ac yn ymroddedig

Gofynion rheoliadol

Mae PTQ yn cael ei reoleiddio gan holl reoleiddwyr cymwysterau'r Deyrnas Unedig, ac felly mae ein cyfrifoldebau rheoliadol fel a ganlyn:

- Cynnal integriti cymwysterau a gydnabyddir yn genedlaethol
- Cyflwyno tystysgrifau ar gyfer unedau a chymwysterau ffurfiol
- Sicrhau bod cymwysterau'n hygyrch i bawb, heb rwystrau na chamwahaniaethu
- Hunanasesu parhaus i sicrhau bod unedau a chymwysterau'n gadarn ac yn addas at y diben
- Bodloni'r meini prawf a'r egwyddorion rheoliadol

Manylion cyswllt:

Prince's Trust Qualifications (PTQ)

9 Eldon Street, London EC2M 7LS

020 7543 1391

qualifications@princes-trust.org.uk

Nod y Cymhwys

Mae cymwysterau'r Prince's Trust mewn Archwilio Menter yn cydnabod gwybodaeth a dealltwriaeth mewn meysydd allweddol sy'n ymwneud â rhedeg busnes. Datblygwyd y cymhwyster gyda'r nod o sicrhau bod dysgwyr yn camu ymlaen i fod yn berchen ar fusnes, yn hunan-gyflogedig neu i astudio ymhellach.

Mae'r cymhwyster yn rhoi cyfle i ddysgwyr wneud y canlynol:

- Datblygu eu twf personol a'u hymgysylltiad mewn dysgu a thrwy ddysgu;
- Ymgysylltu â dysgu sy'n berthnasol iddyn nhw ac sy'n cefnogi datblygu sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth mewn meysydd allweddol sy'n hanfodol er mwyn archwilio opsiwn hunangyflogaeth;
- Ymbaratoi i gamu ymlaen i raglenni addysg bellach, os na fydd hunangyflogaeth yn opsiwn.

Crynodeb o'r Cymwysterau

Dyfarniad Lefel 1 Prince's Trust mewn Archwilio Menter	
Fframwaith Cymhwyso	RQF
Rhif y cymhwyster (QN)	601/1850/7
Rhif Cymeradwyo/Dynodi Cymwysterau Cymru	C00/3774/1
Ystod oed	Cyn-16, 16-18, 19+
Ystod gwerth o ran credydau	8
Nifer y credydau sy'n ofynnol ar gyfer Lefel 1	8
Asesu'r cymhwyster	Portffolio o dystiolaeth, asesu gan y ganolfan
Oriau dysgu tywysedig (GLH)	75
Cyfanswm Amser Cymhwyso (TQT)	80
Gwybodaeth ynghylch graddio	Gradd llwyddo
Gofynion mynediad	Nid oes angen unrhyw gymwysterau eraill ar ddysgwyr cyn cael eu derbyn

Tystysgrif Lefel 2 Prince's Trust mewn Archwilio Menter	
Fframwaith Cymhwyso	RQF
Rhif y cymhwyster (QN)	601/2655/3
Rhif Cymeradwyo/Dynodi Cymwysterau Cymru	C00/3774/2
Ystod oed	Cyn-16, 16-18, 19+
Ystod gwerth o ran credydau	17
Nifer y credydau sy'n ofynnol ar gyfer Lefel 2	9
Asesu'r cymhwyster	Portffolio o dystiolaeth, asesu gan y ganolfan
Oriau dysgu tywysedig (GLH)	161
Cyfanswm Amser Cymhwyso (TQT)	170
Gwybodaeth ynghylch graddio	Gradd llwyddo
Gofynion mynediad	Nid oes angen unrhyw gymwysterau eraill ar ddysgwyr cyn cael eu derbyn

Strwythurau'r Cymwysterau

Mae angen bodloni'r rheolau cyfuno a nodir isod cyn i PTQ fedru dyfarnu unrhyw gymwysterau lefel Dyfarniad.

Dyfarniad Lefel 1 Prince's Trust mewn Archwilio Menter

Isafswm nifer y credydau sydd i'w cyflawni	8
Uchafswm nifer y credydau sydd i'w cyflawni	8

Teitl yr uned	URN	Lefel	GLH	Credydau
Grŵp A1 (Unedau Gorfodol)				
Dilyniant Personol	M/503/3370	Lefel 1	30	3
Marchnata	R/503/3376	Lefel 1	30	3
Archwilio Menter	K/505/7179	Lefel 1	15	2
Grŵp A2 (Uned Dewisol Ychwanegol)				
Deall Arian	J/503/3374	Lefel 2	30	3

Tystysgrif Lefel 2 Prince's Trust mewn Archwilio Menter

Isafswm nifer y credydau sydd i'w cyflawni	17
Uchafswm nifer y credydau sydd i'w cyflawni	17

Teitl yr uned	URN	Lefel	GLH	Credydau
Grŵp A1 (Unedau Gorfodol)				
Dilyniant Personol	M/503/3370	Lefel 1	30	3
Marchnata	R/503/3376	Lefel 1	30	3
Archwilio Menter	K/505/7179	Lefel 1	15	2
Deall Arian	J/503/3374	Lefel 2	30	3
Datblygu Strategaeth Farchnata ar gyfer Menter	D/506/9104	Lefel 2	26	3
Datblygu Menter	H/506/9105	Lefel 2	30	3

Unedau

Mae'r cymwysterau Archwilio Menter yn cwmpasu ystod o sgiliau. Isod ceir trosolwg o'r unedau sydd ar gael a'r lefelau a'r credydau cyfatebol.

Teitl yr uned	Ar gael yn		Gwerth o ran Credydau
	Lefel 1	Lefel 2	
Dilyniant Personol	•		3
Archwilio Menter	•		2
Marchnata	•		3
Deall Arian		•	3
Datblygu Strategaeth Farchnata ar gyfer Menter		•	3
Datblygu Menter		•	3

I gael rhagor o fanylion am yr unedau unigol a'r meini prawf asesu, gweler Atodiad 1.

Mae Atodiad 2 yn darparu disgrifiadau lefel ar gyfer y tair lefel sy'n cael eu cwmpasu gan yr unedau a'r cymwysterau.

Rheolau Cyfuno

Wrth fodloni'r rheolau cyfuno, does dim rhaid i'r dysgwyr gyflawni'r unedau mewn unrhyw drefn benodol, a dylai'r Aseswyr deilwra rhaglenni dysgu i ymateb i anghenion dysgwyr unigol. Yr argymhelliad yw bod canolfannau, pryd bynnag y bydd hynny'n bosib, yn mabwysiadu agwedd gyfannol at gyflwyno'r cymwysterau hyn ac yn canfod cyfleoedd i gysylltu'r unedau a'r lefelau.

Gall dysgwyr sy'n methu â chyflawni cymhwyster llawn dderbyn cydnabyddiaeth i'w cyflawniadau trwy ardystiad unedau yn unig.

Cyfuniadau Gwaharddedig

Nid oes cyfuniadau uned wedi'u gwahardd ar gyfer y cymwysterau hyn.

Symud Ymlaen

Mae'r cymwysterau hyn yn rhoi strwythur i ddysgwyr symud ymlaen i berchnogaeth busnes/hunangyflogaeth a chyfleoedd addysg bellach wrth iddynt ddatblygu ymwybyddiaeth busnes yn ogystal â datblygiad personol a sgiliau cyflogaeth.

Iaith

Os ydych chi'n dymuno cynnig y cymwysterau hyn yn Gymraeg, cysylltwch â The Prince's Trust Qualifications.

Trefniadau Mynediad

Ceir gwybodaeth fanylach am y polisïau Ystyriaeth Arbennig ac Addasiadau Rhesymol ar gyfer y cymwysterau hyn yn y Llawlyfr i Ganolfannau (QSP 00)

Asesu'r Cymwysterau

Graddio

Mae'r cymwysterau Archwilio Menter yn cael eu hasesu gan y ganolfan, drwy ddefnyddio portffolios o dystiolaeth, a rhoddir gradd llwyddo neu fethu iddynt. Caiff y portffolios eu hasesu'n fewnol a'u dilysu'n allanol.

Mae'r broses asesu fel a ganlyn:

- Pennir gweithgareddau'n fewnol gan y ganolfan i fodloni'r gofynion a geir ym meini prawf asesu'r uned
- Caiff y dysgwyr eu hasesu'n fewnol gan Aseswr yn y ganolfan wrth iddyn nhw ymwneud â gweithgareddau
- Caiff tystiolaeth y dysgwr ei choladu i greu portffolio, y cyfeirir ato drwy ddefnyddio Taflen Olrhain ar gyfer yr unedau
- Mae'r ganolfan yn ymgymryd â gweithgareddau sicrhau ansawdd mewnol sy'n cynnwys sampl portffolios a aseswyd gan bob Aseswr
- Yna caiff sampl pellach o bortffolios ei ddilysu'n allanol gan Prince's Trust Qualifications

Yn achos y cymwysterau hyn, y dull gweithredu arfer gorau yw asesu ar ffurf 'asesiad parhaus'. Mae hynny'n golygu bod y dysgwr yn cael ei asesu ar hyd y rhaglen astudio, fel bod modd gosod gweithgareddau amgen a chynhyrchu rhagor o dystiolaeth tra bod cyfleoedd yn parhau o fewn y rhaglen. Mae asesiad parhaus yn cynnal symbyliad ac ymgysylltiad y dysgwyr, gan eu bod yn cael cyfleoedd i drafod eu cynnydd, gwirio eu bod yn gweithio ar y lefel gywir o safbwynt eu gallu, a'u bod yn cynhyrchu digon o dystiolaeth. Dylai'r ddeialog agored hon gyda'r dysgwyr gael ei chofnodi ar eu portffolio, yn uniongyrchol ar eu gwaith, ac ar y Daflen Olrhain ar ffurf adborth aseswr. Mae ysgrifennu sylwadau ar waith y dysgwyr, a'r Taflenni Olrhain, yn fodd i'r staff gyfathrebu â'i gilydd wrth sicrhau ansawdd yn fewnol ac â'r Dilysydd Allanol os bydd y gwaith yn rhan o'r sampl dilysu.

Ceir gwybodaeth fanylach am strategaeth asesu'r cymwysterau hyn yn y Llawlyfr i Ganolfannau (QSP 00) a'r Llawlyfr Cyflwyno Hawliadau a Chanlyniadau (QSP 03), sydd fel ei gilydd ar gael ar ein gwefan yn y [Canllawiau i ganolfannau/Guidance for centres](#)

Tystiolaeth

Er mwyn cyflawni'r unedau a'r cymwysterau mae angen i ddysgwyr gasglu tystiolaeth o weithgareddau sy'n dangos eu bod wedi bodloni pob un o'r meini prawf asesu. Bydd peth tystiolaeth o berfformiad dysgwr hefyd yn deillio o gofnodion arsylwi a geirda tystion, a fydd yn gweld y dysgwr yn cyflawni gweithgareddau. Gall tystiolaeth fod mewn nifer o wahanol ffurfiau, a gall amrywio yn ôl diddordebau ac anghenion y dysgwyr.

Trwy gwblhau gweithgareddau ar y rhaglen ddysgu, dylai'r dysgwyr gynhyrchu tystiolaeth sy'n dangos eu bod wedi cwblhau'r holl feini prawf asesu yn ddigonol.

Ceir gwybodaeth fanylach yn y llawlyfr Datblygu Portffolio (QSP 01) sydd ar gael ar ein gwefan yn y [Canllawiau i ganolfannau/Guidance for centres](#)

Cofnodi Cyflawniad

Pan fydd y dysgwyr wedi casglu eu tystiolaeth, defnyddir Taflenni Orlhain i gofnodi pa ddarn(au) o dystiolaeth sy'n bodloni pob maen prawf asesu. Mae'n debygol y bydd y dysgwyr yn casglu llawer mwy o dystiolaeth nag sydd angen, ac felly mae'n bwysig bod y Taflenni Orlhain yn cael eu defnyddio dim ond er mwyn cofnodi'r dystiolaeth benodol sy'n angenrheidiol i fodloni'r meini prawf, yn hytrach na phob darn o waith a gynhrychir.

Rhaid i'r Taflenni Orlhain gael eu llofnodi a'u dyddio gan y dysgwr a'r Aseswr. Trwy lofnodi'r Taflenni Orlhain, mae'r dysgwr a'r Aseswr yn datgan mai gwaith y dysgwr ei hun yw'r portffolio a gyflwynwyd. Ni ddyfarnir y cymhwyster heb ddatganiad wedi'i lofnodi.

Nid yw The Prince's Trust yn gofyn bod pob darn o dystiolaeth yn cael ei llofnodi a'i dyddio.

Gellir lawrlwytho Taflenni Orlhain ar gyfer y cymhwyster hwn o'n [gwefan](#).

Cyflwyno hawliadau

Ni ddylai canolfannau hawlio unedau a chymwysterau i'r dysgwyr ond pan fyddant yn sicr bod eu portffolio'n bodloni'r holl feini prawf asesu, ac mae'r gwaith wedi bod yn destun sicrhau ansawdd mewnol. Cyflwyno hawliadau yw'r cam swyddogol o hysbysu Prince's Trust Qualifications bod y dysgwyr yn cael eu cyflwyno i'w dilysu'n allanol.

Bydd cyfleoedd rheolaidd i gyflwyno portffolios dysgwyr ar hyd y flwyddyn.

Gofynion staff

Er mwyn glynu at drefniadau sicrhau ansawdd The Prince's Trust ar gyfer y cymwysterau hyn, rhaid i'r ganolfan sicrhau bod y rolau a'r cyfrifoldebau hyn wedi cael eu cyflawni:

- Aseswyr
- Swyddog Sicrhau Ansawdd Mewnol (IQA)

Rhaid sicrhau nad yw'r un person byth yn cwblhau'r prosesau sicrhau ansawdd mewnol ar gyfer portffolios y maent hwy wedi'u hasesu. Ceir gwybodaeth fanylach am rolau'r Aseswr a'r Swyddog Sicrhau Ansawdd Mewnol, ynghyd â phroffiliau cymhwysedd, yn y Llawlyfr i Ganolfannau (QSP 00) sydd ar gael ar ein gwefan yn y [Canllawiau i ganolfannau/Guidance for centres](#)

Cefnogaeth i ganolfannau

Hyfforddiant

Mae Prince's Trust Qualifications yn cynnig hyfforddiant i gefnogi canolfannau i gyflwyno a gweinyddu'r cymwysterau hyn.

Gwefan

Mae ein gwefan yn cael ei diweddarau'n gyson i sicrhau bod yr wybodaeth ddiweddaraf am y cymhwyster ar gael i staff canolfannau, a hefyd nodiadau a pholisïau arfer gorau. Gallwch gyrraedd y wefan drwy'r ddolen ganlynol: [Prince's Trust Qualifications](#)

Rhestr o'r Atodiadau

Atodiad 1 – Tabl trosolwg o'r Unedau

Atodiad 2 – Disgrifwyr Iefelau

Atodiad 3 – Rhestr Brisiau

Atodiad 1

Teitl yr uned	Lefel	Credydau	URN
Dilyniant Personol	Lefel 1	3	M/503/3370
Marchnata	Lefel 1	3	R/503/3376
Archwilio Menter	Lefel 1	2	K/505/7179
Deall Arian	Lefel 2	3	J/503/3374
Datblygu Strategaeth Farchnata ar gyfer Menter	Lefel 2	3	D/506/9104
Datblygu Menter	Lefel 2	3	H/506/9105

Ceir meini prawf asesu'r unedau ar bob lefel ar y tudalennau sy'n dilyn.

Dilyniant Personol

Mae'r uned hon yn caniatáu i ddysgwyr ddatblygu dealltwriaeth o sut mae asesu eu cryfderau a'u gwendidau er mwyn gosod nodau hylaw a chyraeddadwy ar gyfer gwaith a/neu eu bywyd personol.

Deilliant dysgu	Meini prawf asesu
1. Deall eu cryfderau a'u gwendidau eu hunain	1.1 Datgan tri chryfder personol
	1.2 Disgrifio un gwendid personol
	1.3 Disgrifio sut y gellid gwella'r gwendid hwn
2. Deall eu proffil dysgu eu hunain	2.1 Disgrifio ystyr arddull ddysgu
	2.2 Nodi eu harddull ddysgu eu hunain
	2.3 Rhestru dwy ffordd o wella eich dysgu eich hunan
3. Gallu llunio cynllun gweithredu ar gyfer datblygiad personol	3.1 Pennu nod ar gyfer datblygiad personol
	3.2 Rhestru'r camau gweithredu sydd eu hangen i gyflawni'r nod
	3.3 Nodi'r canllawiau, y cymorth neu'r adnoddau y bydd eu hangen i gyflawni'r nod
	3.4 Disgrifio sut y gallai eu sgiliau a'u gwendidau eu hunain effeithio ar gyflawni'r nod

Archwilio Menter

Mae'r uned hon yn caniatáu i ddysgwyr archwilio hunangyflogaeth fel opsiwn ar eu cyfer eu hunain.

<i>Deiliant dysgu</i>	<i>Meini prawf asesu</i>
1. Gallu archwilio a yw hunangyflogaeth yn briodol iddo/iddi	1.1 Rhestru manteision ac anfanteision hunangyflogaeth
	1.2 Rhestru manteision ac anfanteision bod yn gyflogedig
2. Deall pa mor bwysig yw gwerthoedd wrth gychwyn busnes newydd	2.1 Rhestru gwerthoedd busnes eich menter
	2.2 Datgan sut y byddwch chi'n dangos y gwerthoedd hyn
	2.3 Disgrifio pam mae gwerthoedd yn bwysig i fusnesau
3. Gwybod pwysigrwydd ysgrifennu cynllun busnes	3.1 Datgan diben cynllun busnes

Marchnata

Mae'r uned hon yn caniatáu i ddysgwyr ddatblygu dealltwriaeth o'r marchnadoedd ar gyfer cynnyrch busnes a dulliau o ddenu a chadw cwsmeriaid.

Deilliant dysgu	Meini prawf asesu
1. Gallu nodi'r targed demograffig ar gyfer cynnyrch neu wasanaeth	1.1 Nodi safle busnes, cynnyrch neu wasanaeth yn y farchnad
	1.2 Disgrifio marchnad darged y busnes, y cynnyrch neu'r gwasanaeth hwn
	1.3 Amlinellu pam y byddai'r busnes, y cynnyrch neu'r gwasanaeth hwn yn apelio i'r gynulleidfa darged
2. Gwybod am wahanol dulliau o ymchwilio i'r farchnad	2.1 Disgrifio manteision cynnal ymchwil i'r farchnad
	2.2 Disgrifio pa wybodaeth y gall ymchwil i'r farchnad ei darparu ynghylch marchnad darged
	2.3 Nodi gwahanol fathau o ymchwil i'r farchnad
	2.4 Dweud beth yw manteision math o ymchwil i'r farchnad
3. Gwybod am wahanol dulliau marchnata	3.1 Nodi dulliau o farchnata busnes, cynnyrch neu wasanaeth
	3.2 Dweud beth yw manteision dull marchnata
4. Deall pwysigrwydd gwasanaeth cwsmeriaid	4.1 Nodi dulliau o ddangos gwasanaeth cwsmeriaid da
	4.2 Disgrifio manteision rhai ffyrdd o ddangos gwasanaeth cwsmeriaid da

Deall Arian

Mae'r uned hon yn caniatáu i ddysgwyr ddatblygu dealltwriaeth o brif gysyniadau rheoli arian busnes ac arian personol.

Deilliant dysgu	Meini prawf asesu
1. Deall eu harferion gwario eu hunain	1.1 Dweud beth yw eu cryfderau a'u gwendidau eu hunain o ran rheoli arian
	1.2 Amcangyfrif cyllideb wythnosol ar sail incwm a gwariant personol
	1.3 Gwahaniaethu rhwng gwariant hanfodol a gwariant nad yw'n hanfodol
	1.4 Nodi ffyrdd o wella'u rheolaeth eu hunain ar arian
	1.5 Esbonio pam mae'n bwysig rheoli arian eich hunan yn effeithiol
2. Gwybod am wahanol ddulliau o dalu am nwyddau a gwasanaethau	2.1 Enwi tri dull gwahanol o dalu am nwyddau neu wasanaethau
	2.2 Esbonio manteision ac anfanteision un dull o dalu am nwyddau neu wasanaethau
3. Gwybod am drethi	3.1 Enwi tri math gwahanol o dreth
	3.2 Nodi tri pheth mae trethi'n cael eu defnyddio ar eu cyfer
	3.3 Esbonio sut mae treth incwm yn cael ei thalu os ydych chi'n a) gyflogedig b) hunangyflogedig
	3.4 Dweud ble gallech chi gael cyngor ariannol
4. Deall pwysigrwydd rheoli arian mewn amgylchedd busnes	4.1 Diffinio'r termau canlynol: a) adennill costau b) incwm c) gwariant ch) elw d) colled
	4.2 Egluro pam mae'n bwysig cyfrifo pwynt adennill costau mewn busnes
	4.3 Egluro diben llif arian
	4.4 Egluro pam mae'n bwysig cadw trefn ar incwm a gwariant mewn busnes
	4.5 Egluro pam mae cadw cofnodion ariannol ar gyfer busnes yn bwysig

Datblygu Strategaeth Farchnata ar gyfer Menter

Mae'r uned hon yn caniatáu i ddysgwyr wneud ymchwil i'r farchnad ar gyfer menter benodol a datblygu strategaeth i farchnata eu cynnyrch neu eu gwasanaeth.

<i>Deilliant dysgu</i>	<i>Meini prawf asesu</i>
1. Deall y farchnad, ei chwsmeriaid a'i rhanddeiliaid	1.1 Nodi pwy fydd yn cystadlu â'r fenter
	1.2 Disgrifio marchnad darged y fenter
	1.3 Cynnal ymchwil i'r farchnad ar gyfer y fenter
	1.4 Crynhoi canlyniadau'r ymchwil i'r farchnad
2. Deall sut mae hyrwyddo a gwerthu cynnyrch neu wasanaeth	2.1 Cynnal dadansoddiad SWOT ar gyfer y fenter
	2.2 Datblygu strategaeth brisio ar gyfer y cynnyrch neu'r gwasanaeth
	2.3 Datblygu cynllun i hyrwyddo'r fenter

Datblygu Menter

Mae'r uned hon yn caniatáu i ddysgwyr ddatblygu syniad busnes a deall beth sy'n ofynnol i gyflawni'r achos busnes er mwyn datblygu'r syniad hwnnw.

<i>Deilliant dysgu</i>	<i>Meini prawf asesu</i>
1. Gwybod sut mae datblygu syniad busnes	1.1 Diffinio syniad ar gyfer menter
	1.2 Amlinellu'r adnoddau, y gefnogaeth a'r wybodaeth sy'n angenrheidiol i lansio'r fenter
	1.3 Amlinellu'r sgiliau, yr wybodaeth a'r profiad personol y byddwch yn eu cyfrannu i'r fenter
2. Gallu llunio cynllun busnes	2.1 Datblygu rhagolygon llif arian ar gyfer y fenter
	2.2 Datblygu cynllun busnes

Atodiad 2

Disgrifwyr Lefelau

Mae'r Fframwaith Cymwysterau Rheoledig (RQF) yn ymgorffori lefelau o Mynediad 1 hyd at Lefel 8. At ddibenion y ddogfen hon dim ond y lefelau y cynigir y cymwysterau hyn arnynt sydd wedi'u cynnwys isod.

Mae'r disgrifwyr yn cyflwyno'r wybodaeth gyffredinol a'r sgiliau sy'n gysylltiedig â deilydd nodweddiadol cymhwyster ar y lefel honno. Mae'r disgrifwyr lefelau wedi'u fframio ar ffurf deilliannau, ac mae pob categori'n cynnwys gosodiad cychwynnol ("mae'r deilydd yn gallu...") sydd wedyn yn cysylltu â'r deilliannau sy'n gysylltiedig â phob lefel o'r fframwaith.

Gall staff y ganolfan a dysgwyr ddefnyddio'r disgrifwyr i ddeall mwy am y gwahaniaeth rhwng yr unedau a'r cymwysterau a gynigir gan PTQ a'u gofynion cymharol.

Lefel	Disgrifydd gwybodaeth (mae'r deilydd yn....)	Disgrifydd sgiliau (mae'r deilydd yn gallu...)
Lefel 1	Meddu ar wybodaeth ffeithiol sylfaenol am bwnc a/neu wybodaeth am ffeithiau, gweithdrefnau a syniadau er mwyn cwblhau tasgau arferol a ddiffiniwyd yn dda ac ymdrin â phroblemau syml; ac mae'n ymwybodol o agweddau ar wybodaeth sy'n berthnasol i'r maes gwaith neu astudio	Defnyddio sgiliau gwybyddol ac ymarferol sylfaenol i gwblhau tasgau a gweithdrefnau rheolaidd a ddiffiniwyd yn dda. Dethol a defnyddio gwybodaeth berthnasol. Nodi a fu camau gweithredu'n effeithiol.
Lefel 2	Meddu ar wybodaeth a dealltwriaeth o ffeithiau, gweithdrefnau a syniadau mewn maes astudio neu waith i gwblhau tasgau a ddiffiniwyd yn dda ac ymdrin â phroblemau uniongyrchol. Gallu dehongli gwybodaeth a syniadau perthnasol. Mae'n ymwybodol o ystod o wybodaeth sy'n berthnasol i'r maes astudio neu waith.	Dethol a defnyddio sgiliau gwybyddol ac ymarferol perthnasol i gwblhau tasgau sy'n ddigon cyffredin ac wedi'u diffinio'n dda, ac ymdrin â phroblemau uniongyrchol. Nodi, casglu a defnyddio gwybodaeth berthnasol i lywio camau gweithredu. Nodi pa mor effeithiol fu camau gweithredu.

Ffynhonnell: 'Qualification and Component Levels' (Ofqual/15/5774)

Atodiad 3

Rhestr Brisiau

Cadw Costau'n Isel

Rydyn ni'n ymroddedig i sicrhau bod Pobl Ifanc yn cael pob cyfle i sicrhau cydnabyddiaeth ffurfiol i'w sgiliau a'u cyflawniadau, felly rydyn ni'n parhau i gynnig cymwysterau sydd wedi'u prasio'n gystadleuol.

Archwilio Menter

Marcio 100% (fesul uned)	£10.00
Dyfarniad Lefel 1 mewn Archwilio Menter	£15
Tystysgrif Lefel 2 mewn Archwilio Menter	£35

Copi newydd o Dystysgrif

Copi newydd o Dystysgrif	£20.00
--------------------------	--------

Ymholiadau ac Apeliadau

Ymholiad Cam 1	£50.00
Ymholiad/Apêl Cam 2	£100.00
Bwrdd Apeliadau Annibynnol Cam 3	£100.00

Ceir gwybodaeth fanylach am y prosesau hyn yn y [Llawlyfr Cyflwyno Hawliadau a Chanlyniadau \(QSP 03\)](#)

Ailgyflwyno

Mae ailgyflwyno o fewn chwe mis i ddyddiad rhyddhau'r canlyniadau yn ddi-dâl.

Bydd unrhyw ailgyflwyno sy'n digwydd ar ôl y dyddiad hwn yn cael ei drin fel hawliad newydd, a chodir tâl yn unol â hynny.